



# CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN TOWN COUNCIL



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL330AB

01248681697 Clerc y Dref: jayne@llanfairfechan.net

## COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF NOS FERCHER, MAI'R 11<sup>eg</sup> 2022

Presennol: Cadeirydd: Maeres Penny Andow; Dirprwy Faer Chris Jones; Cyng Leena Farhat; Cyng Laura Fielding; Cyng Andrew Hinchliff (ar Zoom); Cyng Nia Jones; Cyng Gareth Jones; Cyng Claire Hughes; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Elgan Owen; Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg

Roedd y Cyngorydd Sir, Jacob Williams yn bresennol i gwrdd â'r Cyngor Tref ac ymwneud gyda materion CBS Conwy.

8. Croeso gan Gadeirydd y Cyfarfod – Estynnwyd croeso i bawb. Estynnwyd diolch i'r Cyng Sir Jacob Williams am fynychu ac fe soniwyd fod hyn yn gadarnhaol dros ben ar gyfer perthnasau gwaith gan edrych tua'r dyfodol.

9. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldebau: Roedd pawb yn bresennol yn y cyfarfod Penderfynwyd derbyn a nodi

10. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – Yn unol â Chod Ymddygiad Llywodraeth Leol

Cyng A Hinchliff – Grant Neuadd Gymunedol Llanfairfechan

Cyng A Jones – Eitem Rhestr Weithredu i drafod cytundeb Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Cyng C Jones – Grant Neuadd Gymunedol Llanfairfechan

Cyng Christine Roberts – Grant Neuadd Gymunedol Llanfairfechan a grant Clwb Pêl Droed Llanfairfechan

Penderfynwyd derbyn a nodi

11. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd. Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Penderfynwyd derbyn a nodi

12. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Mawrth y 30ain ac Ebrill yr 20fed yn ogystal â Rhestr Weithredu Mai'r 11eg 2022.

Cafodd y cofnodion eu derbyn yn flaenorol ac maen nhw wedi'u nodi wedi'u darllen. Soniodd y Clerc fod y broses cymeradwyo cofnodion wedi'i ohirio am y tro yn sgil yr etholiadau.

Eitem 6.2 Soniwyd bod aelod o Glwb Bowlio Llanfairfechan yn anffodlon iawn bod y Cyngor Tref wedi cynnig cyllid i atgyweirio'r blwch trydanol ar y cae chwarae gan eu bod o'r farn y dylai CBS Conwy fod wedi cwblhau'r gwaith. Dywedodd y Clerc bod adran gyfreithiol CBS Conwy wedi egluro mai'r clwb sy'n gyfrifol dros y blwch ac felly ni fyddan nhw'n atgyweirio'r blwch. Pwysleisiodd y Clerc bod angen cwblhau'r gwaith cyn gynted â phosibl gan ei fod yn berygl i'r cyhoedd. Soniodd Cadeirydd y Clwb Pêl Droed caiff y gwaith ei gwblhau ac maen nhw'n ddiolchgar dros ben am y grant. Cytunwyd y dylai'r Clerc e-bostio'r clwb bowlio er mwyn cynnig gwybodaeth am y cynnydd a sicrhau fod hyn er budd y cyhoedd yn sgil y pryderon ynghylch diogelwch. At hyn, fe ddylai'r Clerc e-bostio'r Clwb Pêl Droed i bwysleisio unwaith eto bod angen cwblhau'r gwaith hwn yn brydlon.

Cofnodion Mawrth y 30<sup>ain</sup> 2022 Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng L Farhat Penderfynwyd derbyn a nodi

Cofnodion Ebrill yr 20<sup>fed</sup> 2022 Cynigwyd Cyng E Owen Eiliwyd Cyng C Hughes Penderfynwyd derbyn a nodi

Rhestr Weithredu Mai'r 11<sup>eg</sup> 2022 – dyma'r adroddiad cyntaf ers deufis oherwydd yr etholiadau.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Bu i'r Cyng A Jones adael yr ystafell. Eglurodd y Clerc fod y Cyngor Tref wedi cytuno ar dorri mymryn o'r glaswellt ym mis Mai yna torri popeth ar ddiwedd Medi. Mae hyn er mwyn amharu cyn lleied â phosibl ar y bywyd gwyllt fel sydd wedi'i gynghori gan PlantLife a chynghor amgylcheddol. Bu i'r Clerc ofyn fwasai modd parhau gyda'r tendr blaenorol ar gyfer 2022/23 gan fod Covid-19 wedi gohirio penderfyniadau ac mae angen cwblhau'r gwaith cyn gynted â phosibl. Mae'r Cyngor Tref yn gyfrifol dros lwybrau penodol fel rhan o gytundeb gyda CBS Conwy ac mae'n rhaid sicrhau bod dau doriad yn ôl y cytundeb hwn. Cytunwyd bod modd i'r

Clerc ail-drefnu'r contractwr Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer eleni gan y bu'r gwaith o safon dda. Bydd proses tendro ar waith y flwyddyn nesaf er mwyn cynnig cyfle i gontractwyr lleol gyflwyno ceisiadau.

#### Lloches ar y promenâd ger y bont droed

Soniwyd fod preswilydd wedi bod mewn cyswllt ac roedden nhw wedi'u siomi'n fawr nad oedd meinciau newydd wedi'u gosod er bod swyddogion CBS Conwy wedi addo'u gosod yno. Bydd y Cynghorydd Sir, Bryn Ward yn mynd i'r afael â'r mater hwn ac yn adrodd yn ôl. Clerc i e-bostio ERF i ofyn am ddyddiad cau.

Maes parcio'r Promenâd a phrosiect amddiffyn rhag llifogydd – Soniwyd na chafodd unrhyw wybodaeth bellach ei rhannu am y broses dylunio ac mae pryderon fod amser yn prysur fynd heibio. Byddwn yn gwahodd y tîm dylunio i'r cyfarfod nesaf. Cafodd pryder ei rannu ynghylch y newidiadau i dreuliau parcio sydd wedi'u cyflwyno mewn trefi eraill – codir tâl dyddiol erbyn hyn. Soniwyd na fyddai hyn yn addas ar gyfer Llanfairfechan. Bydd y Cyngor Tref yn parhau i drin a thrafod gyda CBS Conwy am gynlluniau i'w gweithredu'n ymwneud â thalu ac arddangos. Gallai hyn fod yn gynnig i noddî'r ardal. Fodd bynnag, mae'r trafodaethau hyn yn dal ar waith a bydd angen cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus cyn gweithredu unrhyw newidiadau.

Penderfyniad sgip cymunedol. Fe gytunodd y Cynghorydd Sir, Bryn Ward, i ymchwilio'r sefyllfa a chydweithio er mwyn sicrhau canlyniad priodol.

#### Maes Parcio Ffordd yr Orsaf

Mae gan y preswylwyr bryderon difrifol ynghylch yr amhariad yn y maes parcio a'r difrod posibl yn yr ardal. Mae e-bost gan CBS Conwy yn datgan y byddai'r contractwr wedi cwblhau trosglwyddo'r amddiffynfeydd meini ym maes parcio Ffordd yr Orsaf yn yr wythnos sydd ar ddod ac fe ddylen nhw fod wedi gadael y safle erbyn diwedd yr wythnos nesaf. Y Cynghorydd Sir Jacob Williams i barhau i gysylltu gyda'r preswilydd i gynnig cefnogaeth a chymorth gydag ymholiadau.

Maes parcio Nant y Pandy – Mae fan wen wedi'i gadael yn ardal maes parcio Nant y Pandy. Mae'r ased hwn yn y broses o gael ei drosglwyddo i'r Cyngor Tref ac felly mae CBS Conwy yn dal yn gyfrifol dros ymchwilio a chael gwared ar y cerbyd.

Difrod Nant y Coed – derbyniwyd e-bost gan CBS Conwy sydd wedi caffael dyfynbris mynediad grisiog gan y contractwr a gysylltwyd gydag o'n wreiddiol i gyflawni gwaith adeiladu ger yr afon. Mae cais am gyllid a 10% wrth gefn wedi'i gyflwyno'n seiliedig ar y dyfynbris hwnnw. Roedd y costau ail-ddyfynnu a dderbyniwyd wedi i amser fynd heibio i sicrhau'r arian yn golygu bod y costau hynny'n uwch na'r arian a sicrhawyd. Mae hyn wedi'i ail-dendro erbyn hyn a byddan nhw'n chwilio am geisiadau gan bobl eraill gan obeithio y bydd y prisiau'n is na chyfanswm y cyllid grant sydd wedi'i ddyrannu. Bu i'r Cynghorydd Sir, Bryn Ward, gytuno i ymchwilio'r sefyllfa a chydweithio er mwyn sicrhau canlyniad priodol.

Prosiect Meinciau – wedi'i ohirio tan yr agenda nesaf

Prosiect Gwyllo Cyflymder – caiff gwaith ei gyflawni er mwyn caffael cyfarpar a bydd y Clerc yn cynnig gwybodaeth yn y cyfarfod nesaf. Mae yna dri gwirfoddolwr sy'n golygu y gallwn ni fynd rhagddi gyda'r prosiect ond mae gwir angen mwy o wirfoddolwyr arnom ni er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol. Y Clerc a'r Cynghorwyr i fwrw iddi a chynnig adborth yn y cyfarfod nesaf.

Senotaff – mae gwaith wedi'i gyflawni ar y gwelyau llechi ac maen nhw'n edrych yn llawer taclusach. Clerc i ymchwilio prynu cysgodluniau du ac adrodd yn ôl.

MUGA Pen Morfa – mae angen gosod rhwyd tenis a rhwyd pêl fased newydd. Clerc i weithredu.

Gwrych Bwyd Bendigedig – mae'r planhigion wedi'u plannu ac roedd sesiynau'r prosiect yn boblogaidd. Soniwyd fod hyn wedi hyrwyddo enw da Bwyd Bendigedig ac mae mwy o wirfoddolwyr wedi cynnig rhoi o'u hamser. Bydd rhai o'r planhigion yn ffrwytho eleni a fydd yn ei dro'n ennyn mwy o ddiddordeb.

Llys Petanque – Gofynnodd y Clerc oes modd ychwanegu mwy o gerrig at y llain gan ei fod yn flêr. Soniwyd mae'n bosibl y bydd angen manteisio ar gyngor pellach oherwydd gallai elwa o broses gwahanol. Clerc i gymryd cyngor arolygwyr chwarae CBS Conwy a swyddogion Mannau Agored cyn adrodd yn ôl i'r Cyngor Tref. Awgrymwyd y dylid gwahodd gefeillio trefi i Ddiwrnod Picnic y Tedis a gofyn iddyn nhw am gynnal gweithgaredd petanque – Clerc i e-bostio

Diffibriliwr – Mae wedi'i osod yn Seagrass erbyn hyn ac rydym yn aros am lechen coffa i'w osod ar y safle. Yn dilyn hyn, caiff llun ei dynnu er mwyn nodi'r prosiect partneriaeth a nodi fod y diffibriliwr wedi'i osod er cof am Jenna Jones.

Coelcerthi drewllyd – Fe dderbyniwyd adroddiadau gan breswylwyr ynghylch problem barhaus gyda choelcerthi drewllyd ar Ffordd y Felin. Mae Gwasanaethau Rheoleiddio CBS Conwy wedi dweud unwaith eto y dylai'r

preswylwyr roi gwybod am y broblem hon ar y pryd er mwyn i swyddog allu galw heibio i ymchwilio i'r mater ar unwaith. Mae'n amhosibl mynd i'r afael â'r mater heb unrhyw dystiolaeth. Mae'r Clerc wedi rhannu'r wybodaeth hon gyda'r preswilydd dan sylw ac felly'r gobaith ydy y bydd yn rhoi gwybod ar unwaith y tro nesaf.

Archwilio – Mae dogfennau 2021/22 yn nwylo'r Archwilywyr Mewnol ar hyn o bryd a byddan nhw'n barod ar gyfer archwiliad allanol Archwilio Cymru ym mis Mehefin.

TG y Swyddfa a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol – Mae Pwyllgor Neuadd Gymunedol Llanfairfechan wedi archebu pecyn llinell ffibr gan BT felly bydd gwelliannau sylweddol i'r rhyngwyd yn fuan iawn. Bydd angen i'r Cyngor Tref benderfynu ydyn nhw am barhau gyda'u llinell gyfredol neu dalu tuag at y llinell ffibr newydd a gweithredu un system yn y neuadd. Byddwn yn dwyn hyn i ystyriaeth gan edrych tua'r dyfodol.

Llungopiwr – mae'r cytundeb newydd ar waith ac mae llungopiwr newydd wedi'i ddanfôn

Hyfforddiant y Clerc a'r Staff – Clerc i gofrestru gyda hyfforddiant Cilca Cymdeithas Clercod Cyngorau Lleol erbyn diwedd Mai a bydd gan y Clerc 12 mis i'w gwblhau. Mae hyn yn ofyniad ynghlwm â'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 erbyn hyn.

Sesiwn Gymunedol wedi'i drefnu ar gyfer Mehefin yr 8fed Dyddiad pwysig ar gyfer eich calendr. Bydd Cymorth Cynllunio Cymru yn hwyluso sesiwn gymunedol yn Siambr y Cyngor i fwrw iddi gyda datblygu Cynllun Cymunedol Kickstarter. Mae hwn yn rhan o gynllun cymorth CBS Conwy ar gyfer Cyngorau Tref penodol i gynorthwyo gyda datblygu partneriaethau a chynlluniau cymunedol.

Cytunwyd y dylai'r Cyngorwyr gwrdd am 5yh am un awr yna gellir cynnal sesiwn y preswylwyr yn dilyn hynny am 6yh. Byddwn yn rhannu manylion pellach yn fuan ac rydym wrthi'n llunio poster.

Marchnadoedd Bwyd a Chrefftau Mae'r rhain wedi'u trefnu hyd at Ragfyr ac maen nhw'n llwyddiant ysgubol.

Picnic y Tedis – mae'r wybodaeth wedi'i pharatoi ac mae ffenestr thema wedi'i gosod yn ystafell Lloyds Hughes.

Llanfest Awst y 6ed – Mae'r Clerc wedi cwrdd â'r gwirfoddolwr arweiniol a byddwn yn rhannu'r manylion am gyfarfod pellach yn fuan. Dywedodd OCSO ei bod yn dymuno bod ynghlwm â'r pwyllgor trefnu os yn bosibl.

Digwyddiad Tân Gwylt; Digwyddiad Cofio; Gŵyl y Gaeaf a'r goleuadau Nadolig – Bu i'r Clerc awgrymu y dylid cynnal cyfarfod partneriaeth gymunedol yn fuan er mwyn mynd ati i gynllunio'r gweithgareddau hyn cyn gynted â phosibl. Soniwyd na ddylid disgwyl i'r Clerc gymryd yr awenau dros y digwyddiadau hyn yn ychwanegol i'w rôl ac mae'n rhaid i grŵp tasg a gorchwyl eu trefnu gyda staff, aelodau etholedig a gwirfoddolwyr cymunedol yn rhan ohono. Penderfynwyd derbyn a nodi

13. Trafod a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer cyfethol unigolyn ar gyfer swydd achlysurol Ward Lafan – Soniwyd y gallai'r preswylwyr fod wedi cynnal etholiad ar gyfer y sedd neu geisio'n flaenorol am gyfethol. Mae tri phreswilydd wedi cynnig eu hunain eisoes ac fe gynhaliwyd pleidlais ynghylch a ddylid ymestyn y cyfnod cyfethol er mwyn annog mwy o bobl i ystyried sefyll.

Yn dilyn pleidlais i ganiatáu mwy o amser i ymgeisio, roedd 5 o blaid a 6 yn erbyn. Felly, cafodd ei gytuno y dylid cysylltu gyda'r ymgeiswyr cyfredol i holi am gopi o'u CV a llythyr ategol. Dylid gwneud penderfyniad yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

Penderfynwyd derbyn a nodi

13. Derbyn a chymeradwyo cwblhad Archwilio Cymru 2019/2020 a 2020/2021 (wedi'i ohirio yn sgil Covid-19).

Cafodd dogfennau eu dosbarthu dros e-bost ac mewn pecynnau cyfarfodydd. Roedd gan gasgliad archwiliad 2019/20 ddau amod – cafodd yr archwiliad ei gyflwyno'n hwyrach na'r gofyn. Soniwyd fod hyn yn sgil oedi oherwydd Covid-19. Yn ail, ni chafodd cadarnhad yr archwiliad ei nodi'n gywir ar y cofnodion – roedd hyn yn esgeulustod yn sgil pwysau cyfarfodydd ar-lein ar y pryd. Cafodd archwiliad 2020/21 ei gymeradwyo heb unrhyw amod.

Cynigwyd gan y Cyng A Hinchliff Eiliwyd gan y Cyng C Jones

Penderfynwyd derbyn

a nodi

14. Derbyn gwybodaeth am y digwyddiad ceir misol – Ceir a Choffi. Mae'r digwyddiad hwn ar Bromenâd Cayley fel arfer ond bydd ar gau'n fuan er mwyn cyflawni gwaith sylweddol i amddiffyn rhag llifogydd. Mae'r trefnwyr yn ystyried tri lle posibl ac mae Llanfairfechan wedi'i awgrymu. Clerc i gysylltu gyda Harbwrfeistr CBS Conwy a Mannau Agored i dderbyn cyngor a thrafod oes modd i'r digwyddiad hwn gwrdd dros dro ar y Promenâd. Bydd y Clerc yn adrodd yn ôl unwaith y bydd wedi casglu'r wybodaeth briodol. Penderfynwyd derbyn a nodi

15. Derbyn a thrafod ymholiadau ffordd a pharcio fel a ganlyn:

1. Arwyddion diogelwch mynediad Llys y Coed. Gwybodaeth gan y Fforwm Pobl Hŷn ac Age Connect. Eu pryderon ynghylch diogelwch ger y mynediad. Ymateb CBS Conwy: Gan fod darpariaeth troedffordd nid yw arwydd rhybuddio i gerddwyr yn briodol a gan nad yw Llys Y Coed yn briffordd wedi'i fabwysiadu, ni fyddai arwydd rhybudd ffordd ochr yn bosibl. Awgrym arall yw ysgrifennu SLOW/ARAF ar y ffordd cyn y mynediad.

Rydym yn aros am wybodaeth bellach. Estynnwyd diolch i'r swyddog Age Connect am hysbysu'r Cyngor Tref am y datblygiad hwn.

2. Bryn Gorwel – Mae yna dal bryderon sylweddol ynghylch diogelwch ger troed bryn Gorwel. Mae'r parcio wedi newid yn sgil y llinellau newydd. At hyn, mae wedi rhwystro gyrwyr rhag gallu gweld y cerbydau o'u cwmpas yn ddigonol ac mae traffig yn croesi i ochr anghywir y ffordd er mwyn osgoi ceir wedi parcio. Mae e-bost gan CBS Conwy yn datgan y gallai symud cerbydau wedi'u parcio o'r ffordd gerbydau arwain at bobl yn gyrru'n gyflymach ac mae'n debyg mai mwy o gyfyngiadau fyddai'n fwyaf priodol – mae ychydig o ofal a chwarteisi rhwng gyrwyr yn gam cadarnhaol gan sicrhau y bydd pobl yn gyrru'n arafach. Bu i'r Cyngor Tref gytuno i holi am ymweliad safle gyda'r Cyngorydd Sir, Cynghorwyr Wardiau a phreswylwyr sydd wedi cyflwyno'u pryderon yn ffurfiol. Clerc i anfon e-byst.
3. Fan wedi'i adael ym maes parcio Nant y Pandy a'r diweddaraf am gynnydd y maes parcio. – wedi'i ymdrin ag o yn Eitem 12 ar y Rhestr Weithredu
4. Maes Parcio'r Promenâd - wedi'i ymdrin ag o yn Eitem 12 ar y Rhestr Weithredu
16. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Ariannol – roedd y rhain wedi'u dosbarthu'n flaenorol ac maen nhw wedi'u nodi wedi'u darllen.

Gofynnodd y Clerc am ffurfio pwyllgor Cyllid yn 2022/23. I'w drafod yn y Cyfarfod Blynnyddol.

Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng C Jones Penderfynwyd derbyn a nodi

17. Derbyn a chymeradwyo taliadau cyfredol ar gyfer Mai 2022

1. Cyflogau a phensiynau - Cyflogau'r Staff a thaliadau pensiwn Ebrill y Cyflogwr a'r Gweithwyr £4600
2. Taliad TENS Ebrill a Mai Kirsty Merrell Daily £42.00
3. Cyfraddau busnes CBSC Maes Parcio Ffordd y Pentref £22.80
4. Sgipiau Worldcare x 2 £468.00 (taliad ôl-ddyddiedig)
5. grant s137 CTLLan Clwb Pêl Droed Llanfairfechan 1224.90 (taliad ôl-ddyddiedig)
6. grant s137 CTLLan Neuadd Gymunedol Llanfairfechan (grant s19) 3000.00 (taliad ôl-ddyddiedig)

Cynigwyd gan y Cyng N Jones Eiliwyd gan y Cyng G Jones Penderfynwyd derbyn a nodi

18. Trafod materion cynllunio

0/49529 (diwygiad) Tu Hwnt i'r Afon 9 Y Clos – wedi'i ddiddymu erbyn hyn

0/49558 (amrywiad) Fernbank Ffordd Penmaenmawr – cydymffurfio â chyngor y swyddog

0/49599 Rhan o'r Morglawdd, oddeutu 1.1km o Faes Parcio'r Pafiliwn, Llanfairfechan Conwy – dim arsylwadau

0/49606 Y Bwthyn Tyddyn Drycin – dim arsylwadau

Penderfynwyd derbyn a nodi

19. Derbyn gohebiaeth – cafodd yr ohebiaeth ei ymdrin ag o yn Eitem 12 ar y Rhestr Weithredu

20. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

1. Bu i'r Cyng Alun Jones fynychu cyfarfod am y Prosiect Morfa Madryn. Mae'r Cyngor Tref wedi derbyn £2094 gan Dŵr Anafon i dalu am gostau trwsio ac arwyddion.

Mae tri diwrnod digwyddiadau wedi'u trefnu

1. Diwrnod Darganfod Madryn – dyddiad yng Ngorffennaf i'w gytuno arno. Bydd teithiau gwybodaeth ar hyd yr arfordir ynghlwm â'r digwyddiad hwn.
2. Dyddiad codi sbwriel i'w gytuno arno.
3. Gwyllo Adar – dyddiad i'w gytuno arno.

Fe awgrymwyd y gellir cysylltu'r rhain gyda'r Wythnos Fawr Werdd ym mis Medi. Angen cyflawni gwaith cynllunio pellach.

Y nod ydy cychwyn ar y gwaith ar y llochesi ym mis Gorffennaf ond mae angen cytuno gyda Gwynedd er mwyn bwrw iddi gyda'r gwaith hwn. Fe gyhoeddwyd bod y Cyngor Tref wedi ennill £4,600 (80% o gyfanswm gost y prosiect) o'r prosiect Carneddau

2. Bu i'r Cyng Claire Hughes fynychu hyfforddiant Chwarae Cymru 'Beyond Youth Shelters'. Roedd yn sesiwn ddifyr dros ben ac fe fydd y Cyng Claire yn paratoi crynodeb ar gyfer cyfarfod Cyngor Tref yn y dyfodol gan fod ganddi wybodaeth a allai lywio gwaith yn y dyfodol ar y Cynllun Cymunedol Penderfynwyd derbyn a nodi

21. Derbyn pryderon a chanmoliaethau brys

1. Soniwyd y daethpwyd o hyd i nifer o flychau ocsid nitraidd ar y digwyddiad codi sbwriel cymunedol yn ddiweddar. Clerc i adrodd yn ôl i Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu a hefyd gofyn i Wasanaeth Ieuenctid Conwy os allan nhw gynnig sesiynau gwybodaeth.

2. Mae Gefeillio Trefi wedi holi a fyddai cynrychiolydd o'r Cyngor Tref yn hoffi mynd ar y daith i Ffrainc.

3. Cwestiwn ynghylch lloches y lanfa ar y promenâd. Clerc i e-bostio gwasanaethau cyfreithiol CBS Conwy i weld oes unrhyw gynnydd ynghylch y gwaith.
  4. Canmoliaeth i'r tîm staff am y marchnadoedd Bwyd a Chrefftau – fe dderbyniwyd gwybodaeth yn datgan eu bod o safon uchel.
  5. Gwybodaeth am gloddiad archeolegol yn Llanfairfechan ar Fedi'r 18fed. Awyddus i breswylwyr Llanfairfechan gymryd rhan. Bydd y digwyddiad dan arweiniad Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd ar ran y Prosiect Carneddau.
- 
22. Bu i'r Faeres Penny Andow gloi'r cyfarfod gan nodi mai dyma oedd ei chyfarfod olaf fel Cadeirydd a Maeres. Estynnwyd diolch pellach i bawb a oedd yn bresennol a soniwyd pa mor gadarnhaol oedd presenoldeb y Cynghorydd Sir newydd yn y cyfarfod.

Cyfarfod Nesaf : Cyfarfod Blyneddol Cyngor Tref Llanfairfechan am 7 o'r gloch nos Fercher, Mai'r 18<sup>fed</sup> 2022.